

Adroddiad yn dilyn Ymgynghoriad

Ysgol Gynradd Glan-yr-Afon (Browning Close) – Bolardiau

Rhif Project: CO16174

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cynigion cynllun uchod rhwng 8 a 27 Mawrth 2017.

Diben yr ymgynghoriad oedd cael gwybodaeth gan y gymuned leol er mwyn gwella'r cynllun a mynd i'r afael ag unrhyw bryderon lleol, os byddai'n bosibl.

O'r tua 40 o eiddo yr ymgynghorwyd â nhw a'r 6 hysbysiad a ddangoswyd ar y safle, cafwyd 3 ymateb. Dyma grynhoad o'r ymatebion:

- 1 Sylwadau/awgrymiadau ar gynigion
- 2 Anghytuno â'r cynnig (rhai sylwadau ychwanegol a grybwyllwyd)

Argymhelliad

Yn unol â'r uchod, argymhellir bwrw ymlaen â'r cynnig i gyflwyno bolardiau ar hyd ochr gogledd ddwyreiniol Browning Close.

Ceir crynodeb o'r sylwadau a'r pryderon a gyflëwyd isod ynghyd ag ymateb y Cyngor. Mae sampl o'r sylwadau a dderbyniwyd dan bob isdeitl mewn ffont italig.

Derbyniwyd y sylwadau isod yn ystod y cyfnod ymgynghori:

“A wnewch chi gadarnhau pryd y cynhaliwyd yr ymgynghoriad drws i ddrws? Oherwydd rydyn ni wedi gofyn i bedwar cymydog a oedden nhw'n gwybod am hyn a doedd neb yn ymwybodol ohono.”

Ni chynhaliwyd ymgynghoriad drws i ddrws. Ymarfer safonol y Cyngor yw anfon llythyr at bobl sy'n byw ym mhob eiddo o fewn pellter o 100 metr o gynllun Projectau Trafnidiaeth er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r cynllun a gynigir. Rhoddir hysbysiadu safle hefyd yn yr ardal yr effeithir arni yn cynnwys manylion am y cynnig yn ogystal â chyfeiriad gwefan y Cyngor lle y gallai'r cyhoedd weld gwybodaeth ychwanegol am y cynllun. Anfonwyd y llythyrau a chynhaliwyd y cyfnod ymgynghori cyhoeddus rhwng 8 a 27 Mawrth 2017.

Cyfeiriodd un preswlydd at Ysgol Gynradd Lansdowne yn Nhreganna sy'n gweithredu “cynllun côn gwyrdd” ar hyn o bryd; maen nhw'n defnyddio'r cynllun i reoli traffig yn yr ysgol yn ystod cyfnodau danfon a chasglu'r plant trwy osod y conau traffig i gau'r ffordd. Awgrymodd y preswlydd y gellid defnyddio cynllun fel hyn yn Browning Close.

Mae Ysgol Gynradd Lansdowne yn gweithredu cynllun cau ffordd anffurfiol ar hyn o bryd, gan ddefnyddio conau gwyrdd i gau'r ffordd ac mae'r ysgol yn rhoi aelod o staff i reoli'r cynllun hwn. Nid oes cydweithio swyddogol â Chyngor Caerdydd yn gysylltiedig â'r cynllun

cau ffordd hwn; fodd bynnag, mae Cyngor Caerdydd yn adolygu amryw opsiynau ar hyn o bryd er mwyn penderfynu a ellid cyflwyno cynlluniau tebyg trwy'r Ddinas.

“Gellid hefyd ystyried gwneud Browning Close yn ffordd â lleoedd parcio ar gyfer deiliad trwydded parcio preswylwyr yn unig”

Bwriedir cyfleusterau parcio i breswylwyr lle nad oes gan y preswylwyr le parcio oddi ar y stryd eu hunain. Gallaf gadarnhau bod gan bob eiddo ar Browning Close leoedd parcio oddi ar y stryd neu leoedd parcio cymunedol ar gael iddynt. Yn unol â Pholisi'r Cyngor, ni ddarperir parcio i breswylwyr mewn mannau lle y mae gan y preswylwyr gyfleuster parcio ar dir eu cartrefi eu hunain.

Dywedodd un preswilydd y bydd hyn yn gorfodi cerbydau i barcio ar ochr arall y ffordd, a fydd yn golygu y bydd yr ochr honno yn llawn cerbydau. Yna, os bydd cerbydau eisiau pasio, ni fyddant yn gallu mynd ar y palmant oherwydd y bolardiau.

“Mae eich cynnig yn dangos bolardiau ar un ochr y ffordd yn unig, ni fydd hyn yn atal pobl rhag parcio ar yr ochr arall. Pam na rowch chi folardiau ar ddwy ochr y ffordd?”

Y rhesymeg y tu cefn i'r cynllun yw creu llwybr cerdded diogel ar gyfer cerddwyr sy'n gorfod cerdded ar y ffordd ar hyn o bryd oherwydd bod cerbydau'n rhwystro'r llwybr ar y droedffordd. Er bod gan breswylwyr Browning Close leoedd parcio oddi ar y stryd ar gael iddynt, rydym yn deall efallai bod ganddynt fwy nag un cerbyd neu efallai bod ymwelwyr yn parcio yn yr ardal. Felly, mae'r cynllun hwn yn creu llwybr diogel ar hyd un ochr heb gael gwared yn llwyr ar unrhyw le parcio i breswylwyr neu ymwelwyr ar hyd y ffordd hon. Fodd bynnag, yn dilyn gweithredu'r cynllun, cynhelir adolygiad yn rhan o'r "broses fonitro" er mwyn penderfynu a oes angen cyflwyno cyfyngiadau / mesurau parcio ychwanegol.

Yn ystod yr ymgynghoriad, bu i amryw breswilydd grybwyll y mater y byddai gosod bolardiau ar hyd un ochr y ffordd yn atal cerbydau rhag troi i mewn i'w heiddo.

Fel rhan o gam cynllunio'r cynllun hwn, ymgwymerwyd â "phrofion gyrru cerbydau" a gadarnhaodd y gallai cerbydau droi i mewn i'w heiddo heb yrru dros y droedffordd. Fodd bynnag, petai cerbydau'n parcio ar hyd y droedffordd ac yn rhwystro ceir rhag troi i mewn i'w heiddo, byddai hynny'n drosedd "Parcio ar Droedffordd" a "Rhwystro'r Briffordd" yn groes i ddeddfwriaeth genedlaethol a'r Heddlu'n unig a allai ymdrin â hynny. Byddai hyn yn fater gorfodi i'r Heddlu ac felly dylai preswylwyr gyfeirio unrhyw bryder o'r fath atyn nhw.

“Pa mor bell o echwyn y palmant fydd y bolardiau? Beth yw'r mesuriadau, y cylchedd a.y.b? Oherwydd os yw cylchedd y bolardiau'n fawr ni fydd pramiau dwbl yn gallu defnyddio'r droedffordd ac felly byddai'n rhaid eu gwthio ar hyd y ffordd gan ei bod yn debyg y bydd ceir yn parcio ar hyd yr ochr gyferbyn.”

Bydd y bolardiau tua 250mm oddi wrth echwyn y palmant; mae eu diamedr tua 220mm, sy'n gadael digon o led troedffordd i bramiau dwbl fynd ar ei hyd.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English.